# Cyfrifon Cyfredol

Eich helpu i gael mwy o'ch bancio pob dydd





NatWest

Helpful Banking

# Croeso i NatWest

## Ydych chi eisiau agor cyfrif banc?

Pa un ai ydych chi'n agor cyfrif newydd, yn uwchraddio'ch cyfrif presennol, neu'n symud o fanc arall, mae gan NatWest gyfrif sy'n addas i chi. Mae yna rywbeth i bawb – beth bynnag fo'ch oed, incwm neu ffordd o fyw.

Bydd y tabl ar dudalennau 4-5 yn eich helpu i benderfynu pa gyfrif sy'n addas i chi. Mae'n dangos i chi sut maen nhw'n gweithio a'r gwahanol fuddion maen nhw'n eu cynnig. Ac ar ôl i chi benderfynu, mae'n hawdd iawn agor cyfrif. Y cyfan mae'n rhaid i chi ei wneud yw mynd i'ch cangen agosaf, mynd ar lein ar natwest.com/currentaccounts neu ein ffonio ni i gael mwy o wybodaeth.

### Pam NatWest?

- Rydym ni yno i'ch helpu ar y ffôn 24/7
- Mae ein holl ganolfannau galwadau yn y Deyrnas Unedig
- Gallwch roi arian ar eich ffôn symudol trwy ein peiriannau arian
- Gallwch fancio ar lein unrhyw bryd ar natwest.com

# Cyfrifon sy'n rhoi mwy i chi

## Bancio syml, pob dydd

Cyfrifon syml ar gyfer bancio pob dydd


> NatWest Adapt tudalen 7

> Current Plus tudalen 8

> Step tudalen 9


## Cyfrifon sy'n rhoi mwy i chi

Cyfrifon gyda buddion arbennig sydd wedi'u cynllunio i arbed arian i chi Mae ffioedd misol yn daladwy


> Advantage Blue tudalen 10

> Advantage Gold tudalen 11

> Advantage Private tudalen 12


## Cyfrifon i fyfyrwyr a graddedigion

Cyfuniad gwych o wasanaethau bancio i'ch helpu i roi trefn ar eich arian


> Cyfrif Myfyrwyr tudalen 13

> Cyfrif Graddedigion tudalen 14

> Cardiau Debyd tudalen 15


Canllaw ar gipolwg i'n hystod lawn o gyfrifon >

# Dewis y cyfrif addas i chi

| **Os ydych chi'n chwilio am…** | Byddwch eisiau… | Bydd hwn yn rhoi i chi… | Angen gorddrafft? | Mwy o wybodaeth ar dudalen… |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif sy'n ymaddasu i chi | NatWest Adapt | • I bobl ifanc 11-18 oed<br>• Cewch ennill cyfradd llog ar eich arian<br>• Cerdyn debyd Visa y gallwch ei ddefnyddio mewn siopau a chynllunio ei olwg (£5 am bob cynllun)<br>• Naill ai negeseuon testun am ddim – ar gael i gwsmeriaid talu wrth fynd Orange – neu lwytho cerddoriaeth i lawr am ddim pan rydych chi'n rhoi arian ar eich ffôn symudol trwy ein peiriannau arian | Dim gorddrafftiau trefnedig ar gael | 7 |
| Cyfrif syml ar gyfer bancio pob dydd | Current Plus | • Bancio dros y ffôn a'r rhyngrwyd<br>• Cerdyn debyd Visa | – Gorddrafftiau Credit Zone, gorddrafft trefnedig heb ffi (hyd at £7,500) sy'n hwylus ei ddefnyddio<br>– Gallwch fenthyca hyd at £100 yn ddi-log | 8 |
| Cyfrif syml heb orddrafft trefnedig | Cyfrif Step | • Bancio dros y ffôn a'r rhyngrwyd<br>• Cerdyn debyd Visa<br>• Cewch godi arian parod yng nghanghennau Swyddfa'r Post® | Dim gorddrafftiau trefnedig ar gael | 9 |
| Pecyn o fuddion i'w ychwanegu at eich cyfrif Step neu Current Plus | Advantage Blue £6.95 y mis | • Gwerth hyd at £207 o arbedion<br>• Cewch ddewis rhwng yswiriant i'ch ffôn symudol neu yswiriant rhag i'ch car dorri i lawr<br>• Gwasanaeth bwcio tocynnau<br>• Cerdyn gostyngiadau siopa<br>• Numbers Vault™ | Dim gorddrafftiau trefnedig ar gael | 10 |

Bydd ein cyfradd a'n ffioedd am fenthyca heb drefnu'n berthnasol os byddwch yn benthyca mwy na'r swm cytunedig.

**I gael gwybod mwy**

natwest.com/currentaccounts

Gweler y dudalen gefn i gael gwybodaeth am rifau ffôn

Ewch i'ch cangen agosaf

| **Os ydych chi'n chwilio am…** | Byddwch eisiau… | Bydd hwn yn rhoi i chi… | Angen gorddrafft? | Mwy o wybodaeth ar dudalen… |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif sy'n rhoi i chi fuddion sy'n werth eu cael | Advantage Gold £12.95 y mis | • Gwerth hyd at £713 o arbedion<br>• Cyfraddau morgais ffafriol<br>• Benthyciadau wedi'u teilwra (ac eithrio benthyciadau ar-lein) a gorddrafftiau trefnedig<br>• Yswiriant teithio 5 seren ar gyfer y byd i gyd (Graddfa 5 Seren gan Defaqto, Chwefror 10)<br>• Yswiriant ar gyfer hyd at ddau ffôn symudol (cyfrif ar y cyd yn unig)<br>• Yswiriant arobryn rhag i'ch car dorri i lawr | – Gorddrafftiau Credit Zone gorddrafft trefnedig, heb ffi (hyd at £7,500) sy'n hwylus ei ddefnyddio*<br>– Gallwch fenthyca hyd at £100 yn ddi-log<br>– Cyfraddau llog wedi'u teilwra | 11 |
| Ein cyfrif banc mwyaf dethol | Advantage Private £19.95 y mis | • Gwerth hyd at £1,639 o arbedion posibl<br>• Yswiriant teithio 5 seren ar gyfer y byd i gyd a'r Deyrnas Unedig, gwasanaeth concierge, yswiriant rhag argyfyngau cartref ac yswiriant ar gyfer hyd at 4 ffôn symudol<br>• Y gallu i gael trefniadau a gostyngiadau unigryw<br>• Meini prawf cymhwysedd | – Gorddrafft trefnedig gyda chyfraddau llog wedi'u teilwra<br>– Gallwch fenthyca hyd at £250 yn ddi-log | 12 |
| Cyfrif wedi'i gynllunio i fyfyrwyr yn unig | Cyfrif Myfyrwyr | • Cynghorwyr i Fyfyrwyr<br>• Mae meini prawf cymhwyso yn berthnasol | Gorddrafft trefnedig di-log o hyd at £1,000 yn y flwyddyn gyntaf o astudio | 13 |
| Cyfrif wedi'i gynllunio i raddedigion yn unig | Cyfrif Graddedigion | • Benthyciadau ar gyfraddau wedi'u teilwra | Gorddrafft trefnedig di-log o hyd at £2,000 | 14 |

Bydd ein cyfradd a'n ffioedd am fenthyca heb drefnu'n berthnasol os byddwch yn benthyca mwy na'r swm cytunedig.

Nawr cewch ddarllen mwy am y cyfrif sy'n addas i chi >

**I gael gwybod mwy**

natwest.com/currentaccounts

Gweler y dudalen gefn i gael gwybodaeth am rifau ffôn

Ewch i'ch cangen agosaf

# Symud Banc

## Mae'n hawdd symud o fanc arall

Os oes gennych gyfrif cyfredol eisoes gyda banc arall, mae newid i NatWest yn hawdd. Ar ôl i'ch cyfrif gael ei agor gyda ni, y cyfan mae arnom ni ei angen yw eich llofnod ac wedyn bydd ein Tîm Symud penodol yn gwneud yr holl drefniadau i chi, heb godi tâl ar wahân.

- **Byddwn ni'n trosglwyddo'ch holl Archebion Sefydlog a Debydau Uniongyrchol**
- **Byddwn yn eich helpu i drefnu trosglwyddo unrhyw daliadau cyflog/pensiwn**
- **Byddwn yn cyfarwyddo'ch hen fanc i gau'ch cyfrif a throsglwyddo'r balans**
- **Byddwn yn ceisio trefnu'r un math o gerdyn a chyfleuster gorddrafft trefnedig ag sydd gennych gyda'ch banc presennol, ar yr amod y caiff eich cyflog misol ei gredydu i'ch cyfrif newydd – bydd angen i ni weld eich cerdyn banc a thystiolaeth o'ch gorddrafft trefnedig er mwyn gwneud hyn**
- **Byddwn yn ysgrifennu atoch chi pan fydd popeth wedi'i gwblhau**

**Gofynnwch i aelod o'r staff am ein ffurflen Simply Switch to NatWest Authorisation Form**

### Ydych chi wedi ystyried…

Agor cyfrif cynilion gyda ni hefyd? Gallwn drosglwyddo balans eich hen gyfrif cynilion i'ch cyfrif cynilion newydd gyda NatWest. Byddwch yn gallu trosglwyddo arian ar unwaith rhwng eich cyfrifon cyfredol a chynilion NatWest.

# NatWest Adapt

## Y cyfrif sy'n ymaddasu i chi


I bobl ifanc 11 i 18 oed

### Eich arian

Cewch log ar yr arian rydych chi'n ei dalu i mewn i'ch cyfrif.

### Eich cerdyn

Cerdyn debyd Visa y gallwch ei ddefnyddio ar lein ac mewn siopau, a thrwy dalu £5 am bob cynllun, gallwch gynllunio ei olwg gyda'ch ffotograff eich hun neu hyd yn oed eich gwaith celf eich hun. Os ydych chi'n brin o syniadau, gallwch ddewis o'n llyfrgell wych ar lein. Gyda chyfrif Adapt, cewch ddewis y golwg fydd ar eich cerdyn!




Enghraifft o gerdyn safonol




Enghraifft o gerdyn wedi'i bersonoli

### Cewch ddewis eich manteision

Gallwch gael negeseuon testun am ddim os ydych yn gwsmer 'talu wrth fynd' gydag Orange neu lwytho cerddoriaeth i lawr am ddim pan rydych chi'n rhoi arian ar eich ffôn symudol trwy ein peiriannau arian. Hefyd gallwch gael arian i ffwrdd yn rhai o'ch hoff siopau ar y stryd fawr. Gyda chyfrif Adapt, chi sy'n dewis.

### Eich syniadau chi

Cewch y cyfle i ennill arian ychwanegol trwy rannu'ch syniadau, a hefyd awgrymiadau gwych ar y ffordd orau i reoli'ch arian.

Mae'r buddion hyn i gyd ar gael trwy wefan unigryw Adapt – **natwest.com/adapt**

**I gael gwybod mwy**

natwest.com/adapt

0800 200 400

Ewch i'ch cangen agosaf

# Current Plus

## Cyfrif hyblyg ar gyfer bancio pob dydd

Cyfrif banc sy’n cadw pethau’n syml ac yn gwneud bancio pob dydd yn hawdd yw Current Plus.

- **Os oes gennych chi arian yn eich cyfrif neu orddrafft o dan derfyn cytunedig, nid oes ffioedd i’w talu ar eich cyfrif**
- **Mae cyfleusterau bancio dros y ffôn a’r rhyngrwyd yn caniatáu i chi fancio a chael at eich arian unrhyw bryd, yn unrhyw le**
- **Gallwch gael gorddrafft o £100 yn ddi-log gyda gorddrafft trefnedig**
- **Cerdyn debyd Visa**
- **Llyfr sieciau (dewisol)**

### Ydych chi wedi ystyried…

Ein Cyfrif Banc Preifat? I fod yn gwsmer Bancio Preifat a mwynhau buddion unigryw'r gwasanaeth, rhaid i chi fod ag incwm o fwy na £75,000 (£100,000 ar y cyd) neu fod â chynilion o fwy na £50,000.

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 19.

# Step

## Cyfrif syml heb gyfleuster gorddrafft trefnedig

Cyfrif banc sy'n gadael i chi gael at eich arian yn hawdd ac sy'n caniatáu i chi reoli'ch materion ariannol drwy'r amser yw Step.

- **Mae bancio dros y ffôn a'r rhyngrwyd yn caniatáu i chi reoli'ch arian 24/7**
- **Dim cyfleuster gorddrafft trefnedig – sy'n eich helpu i reoli'ch materion ariannol drwy'r amser**
- **Gallwch dalu gan ddefnyddio'ch cerdyn debyd Visa yn y Deyrnas Unedig a thramor lle bynnag y gwelwch y logo Visa**
- **Gallwch ddefnyddio'ch cerdyn debyd Visa i godi arian yn ddi-dâl yng nghanghennau Swyddfa'r Post®**
- **Gallwch godi arian parod dramor lle bynnag y gwelwch y logo Visa. Mae'n bosibl y codir taliadau arnoch**
- **Gallwch dalu biliau gan ddefnyddio Archebion Sefydlog a Debydau Uniongyrchol (mae'n bwysig sicrhau bod gennych chi ddigon o arian i dalu'r taliadau hyn neu bydd y taliadau'n cael eu dychwelyd heb eu talu a bydd Ffioedd am Daliadau heb eu Talu yn cael eu codi)**

### Ydych chi wedi ystyried…

Os ydych chi'n chwilio am gyfrif nad oes ffioedd yn daladwy arno ac nad yw'n cynnig Archebion Sefydlog na Debydau Uniongyrchol, beth am ystyried ein cyfrif Cash Account? Siaradwch â'n staff i gael y manylion.

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 19.

# Advantage Blue

## Arbedion gwych y gallwch fanteisio arnyn nhw

Os oes gennych chi gyfrif Current Plus neu Step, gallwch ddechrau manteisio ar bob math o fuddion ychwanegol pan ddewiswch y pecyn Advantage Blue. Y cyfan mae'n rhaid i chi ei wneud yw penderfynu a fyddai'n well gennych gael yswiriant ar ffôn symudol neu yswiriant rhag i'ch car dorri i lawr fel y prif fudd. Yna byddwch chi'n cael yr holl fuddion hyn gydag Advantage Blue.

Gwerth hyd at £207 o fuddion am £6.95 y mis

- **Cerdyn Rheilffordd 16-25 (os ydych chi'n 25 oed neu'n iau) neu Gerdyn Rheilffordd Family and Friends (a adnewyddir bob blwyddyn)**
- **Cerdyn gostyngiadau siopa sy'n cynnig gostyngiad o hyd at 25% ar lawer o enwau blaenllaw'r stryd fawr ac ar-lein**
- **Yswiriant teithio un daith yn Ewrop i un person, yn ddi-dâl, am bythefnos bob blwyddyn**
- **25% o'ch arian yn ôl ar y cyngherddau gorau a sioeau byw**
- **10% o ostyngiad oddi ar flwyddyn gyntaf eich yswiriant car. Yn amodol ar feini prawf o ran lleiafsymiau premiymau**
- **Yswiriant marwolaeth ddamweiniol gwerth £10,000 (mae cwsmeriaid hŷn na 70 oed yn cael yswiriant gyda gostyngiad 50% yn y buddion). Yn achos cyfrifon ar y cyd, mae'r yswiriant yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng deiliaid y cyfrif**
- **Numbers Vault™ – ar ôl cofrestru mae'n darparu lle diogel i gadw a storio rhifau ffôn, fideos, e-byst, manylion cyswllt, calendr o ddigwyddiadau, tasgau a nodiadau**
- **Arian parod mewn argyfwng 24/7 heb gost ychwanegol**

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 19.

# Advantage Gold

## Cyfrif gyda buddion sy'n werth eu cael

Mae cyfrif Advantage Gold yn rhoi i chi bob math o ostyngiadau ac yswiriant – o gynhyrchion bancio i bethau'r ydych yn eu prynu at deithio, y cartref a'ch ffordd o fyw.

- **Cyfraddau wedi'u teilwra ar fenthyciadau personol NatWest (ac eithrio benthyciadau ar-lein) a gorddrafftiau trefnedig, a threfniadau gwych ar gyfer morgeisi**
- **Y gallu i gael ein cyfrif cynilion Advantage Reserve**
- **Yswiriant teithio blynyddol 5 seren ar gyfer y Deyrnas Unedig a'r byd i gyd. Bydd tâl ychwanegol os ydych chi'n hŷn na 70 oed neu os yw rhai cyflyrau meddygol penodol gennych chi. (Graddfa 5 Seren gan Defaqto, Chwefror 10)**
- **Yswiriant ar gyfer ffonau symudol – ar ôl cofrestru cewch yswiriant ar gyfer hyd at ddau ffôn os oes gennych chi gyfrif ar y cyd**
- **Gostyngiadau hael ar yswiriant car a chartref, a hefyd yswiriant rhag marwolaeth ddamweiniol gwerth £15,000 (mae cwsmeriaid hŷn na 70 oed yn cael yswiriant gyda gostyngiad 50% yn y buddion). Mae'r cynnig am ostyngiad ar yswiriant car yn amodol ar feini prawf o ran lleiafsymiau premiymau. Nid yw'n cynnwys cynigion lle byddwn yn Gwarantu Gwella ar eich premiwm presennol neu'ch premiwm i adnewyddu oddi wrth gyflenwr arall**
- **Yswiriant arobryn* rhag i'ch car dorri i lawr, gan gynnwys Home Call**
- **Arian parod mewn argyfwng 24/7 heb gost ychwanegol**
- **Diogelu rhag dwyn hunaniaeth, sy'n darparu gwerth £5,000 o yswiriant ar gyfer y costau i chi o amddiffyn ac adfer eich statws credyd ar ôl gweithgaredd twyllodrus, gan gynnwys:**

**– adroddiad credyd am ddim,**

**– monitro cardiau ar lein, a**

**– cofrestriad amddiffynnol gyda CIFAS**

Gwerth hyd at £713 o fuddion am £12.95 y mis

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 19.

*Enillydd cylchgrawn Your Money ar gyfer yswiriant rhag car yn torri i lawr 2005, 2006, 2007, 2008, 2009 a 2010.

**I gael gwybod mwy**

natwest.com/currentaccounts

0800 626 503

Ewch i'ch cangen agosaf

# Advantage Private

## Cyfrif banc dethol

Gwerth hyd at £1,639 o fuddion am £19.95 y mis

Mae gan gyfrif Advantage Private fuddion o ran teithio, hamdden a diogelwch, yn ogystal â rhoi modd unigryw i chi gael y cyfraddau a'r gostyngiadau bancio gorau sydd gan NatWest i'w cynnig.
Mae cyfrif Advantage Private ar gael dim ond i bobl ag incwm blynyddol unigol o £75,000 o leiaf neu incwm ar y cyd o £100,000 neu gynilion o £50,000. I fod yn gymwys ac i gadw'r cyfrif, rhaid i'ch cyflog (neu incwm cyfatebol) gael ei anfon i'ch cyfrif.

- **Cyfraddau wedi'u teilwra ar fenthyciadau (ac eithrio benthyciadau ar-lein), gorddrafftiau trefnedig, trefniadau gwych ar gyfer morgeisi a'r gallu i gael ein cyfrif cynilion Advantage Private Reserve**
- **Yswiriant teithio 5 seren ar gyfer y Deyrnas Unedig a'r byd i gyd. Os ydych chi'n hŷn na 70 oed neu os oes gennych chi gyflyrau meddygol, bydd angen i chi ffonio i gadarnhau bod y polisi hwn yn diwallu'ch anghenion. (Graddfa 5 Seren gan Defaqto, Chwefror 10)**
- **Gwasanaeth teithio arbennig ar gael i chi, y gallu i ddefnyddio lolfa mewn meysydd awyr a gyrrwr i barcio'ch car ar eich rhan mewn meysydd awyr**
- **Yswiriant ar gyfer hyd at bedwar ffôn symudol ar ôl cofrestru (yn cynnwys iPhones™, BlackBerrys™ a chynorthwywyr digidol personol (PDAs)**
- **Yswiriant ar gyfer dyfeisiau neu fagiau llaw, ar ôl cofrestru**
- **Diogelu rhag dwyn hunaniaeth, sy'n darparu gwerth £10,000 o yswiriant ar gyfer y costau i chi o amddiffyn ac adfer eich statws credyd ar ôl gweithgaredd twyllodrus, gan gynnwys:**
  **– adroddiad credyd am ddim, monitro cardiau ar lein, a chofrestriad amddiffynnol gyda CIFAS**
- **DataPatrol, ar ôl cofrestru mae'n eich galluogi i ddiogelu'ch gwybodaeth bersonol ar lein**
- **Yswiriant arobryn* rhag i'ch car dorri i lawr, gan gynnwys Home Call**

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 19.

*Enillydd cylchgrawn Your Money ar gyfer yswiriant rhag car yn torri i lawr 2005, 2006, 2007, 2008, 2009 a 2010.

**I gael gwybod mwy**

natwest.com/currentaccounts

0800 592 936

Ewch i'ch cangen agosaf

# Cyfrif Myfyrwyr

## Cyfrif sydd wedi'i gynllunio'n arbennig i fyfyrwyr

Mae ein Cyfrif Myfyrwyr wedi cael ei gynllunio'n unswydd â myfyrwyr mewn golwg - i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian yn ystod eich cyfnod yn y brifysgol. Rhaid mai'r Cyfrif Myfyrwyr yw eich prif gyfrif, ac y gwneir adneuon rheolaidd iddo.

- **Mwy o ganghennau ar gampysau nag unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu arall**
- **Gorddrafft trefnedig di-log hyd at £1,000 yn y flwyddyn gyntaf, gan godi i £2,000 yn y bumed flwyddyn. I fod yn gymwys i wneud cais am orddrafft di-log mae angen i chi ddefnyddio'r cyfrif fel eich prif gyfrif banc a thalu un credyd i mewn iddo bob tri mis a thynnu tri debyd bob mis**
- **Cynghorwyr Myfyrwyr i roi cyngor ymarferol i chi ar sut i wneud i'ch arian weithio'n galetach**
- **Gallwch roi arian ar eich ffôn symudol trwy unrhyw beiriant arian NatWest**
- **Cerdyn debyd Visa sy'n caniatáu i chi dalu am nwyddau a gwasanaethau, gartref a thramor, lle bynnag y gwelwch y logo Visa**
- **Gwasanaeth Blwyddyn Fwlch os ydych chi'n ystyried cymryd blwyddyn i ffwrdd**
- **Cyfleusterau bancio dros y ffôn, ffôn symudol a'r rhyngrwyd sy'n caniatáu i chi fancio a chael at eich arian unrhyw bryd, yn unrhyw le**
- **Balansau cyfrif a chyfriflenni wrth fynd o le i le gyda bancio dros eich ffôn symudol**

### Ydych chi wedi ystyried…

Pan fyddwch yn agor Cyfrif Myfyrwyr gallech hefyd ystyried ein Cerdyn Credyd i Fyfyrwyr?

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 19.

# Cyfrif Graddedigion

## Cyfrif sydd wedi'i gynllunio'n benodol i raddedigion

Mae ein cyfrif Graddedigion wedi'i greu'n arbennig i raddedigion, i'ch helpu i reoli'ch materion ariannol yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwnnw wrth symud o'r Brifysgol i waith amser llawn.

- **Gorddrafftiau di-log hyd at £2,000 i Raddedigion. Mae'r terfyn di-log yn gostwng dros amser: Os byddwch yn graddio cyn 1 Ionawr 2013, mae'r terfynau trefnedig hyd at £2,000 yn y flwyddyn gyntaf, hyd at £1,000 yn yr ail flwyddyn a £500 yn y drydedd flwyddyn.<br>Os byddwch yn graddio o 1 Ionawr 2013 ymlaen, mae'r terfynau trefnedig hyd at £2,000 yn y flwyddyn gyntaf a hyd at £1,000 yn yr ail flwyddyn**
- **Benthyciad Graddedigion gyda chyfradd llog wedi'i theilwra**
- **Ystod o Fenthyciadau Hyfforddiant Proffesiynol os ydych chi'n ystyried mynd ymhellach yn y proffesiynau cyfreithiol neu feddygol, neu os ydych chi'n gwneud MBA**
- **Bancio dros y ffôn, ffôn symudol a'r rhyngrwyd i ganiatáu i chi fancio a chael at eich arian unrhyw bryd, yn unrhyw le**

# Cardiau Debyd

## Y ffordd hwylus i dalu

Pan fyddwch yn agor cyfrif NatWest, byddwch yn cael cerdyn debyd Visa sy'n caniatáu i chi dalu am nwyddau a gwasanaethau ac i gael arian 24/7 yn ddi-dâl trwy fwy na 32,000 o beiriannau arian. Gyda cherdyn debyd Visa NatWest, gallwch:

- **Dalu am nwyddau a gwasanaethau mewn siopau, ar-lein neu dros y ffôn gyda mwy na 29 miliwn o fanwerthwyr ledled y byd**
- **Cael arian parod wrth y til mewn miloedd o siopau ledled y Deyrnas Unedig**
- **Gael arian parod dramor trwy fwy nag 1 filiwn o beiriannau arian. Mae'n bosibl y codir taliadau arnoch**
- **Siopa'n ddiogel ar lein gyda NatWest Secure**
- **Rhoi arian ar eich ffôn symudol trwy unrhyw un o'n peiriannau arian**
- **Cadw golwg ar eich arian trwy beiriannau arian NatWest a chael balansau neu gyfriflenni bach printiedig**
- **Talu i mewn arian parod neu sieciau trwy fwy na 700 o beiriannau arian NatWest ledled y wlad**

### Ydych chi wedi ystyried...

Cymryd benthyciad neu orddrafft trefnedig gan NatWest? Dewch i siarad â ni.

# Beth mae angen i chi ei wneud nesaf

## 1 Dewis y cyfrif sy'n addas i chi

## 2 Cysylltu â ni heddiw

**natwest.com/currentaccounts**

Dim ond ychydig o funudau mae'n cymryd i lenwi ein ffurflen ar-lein

**Gweler y dudalen gefn i gael gwybodaeth am rifau ffôn**

Byddwn ni'n cymryd eich manylion ac yn postio ffurflen atoch i'w llofnodi

**Mynd i'ch cangen NatWest agosaf**

Gall aelod o'r staff agor eich cyfrif

## 3 Beth fydd arnoch ei angen

Ar ôl i'ch cais gael ei dderbyn, bydd angen i chi fynd â phrawf o bwy ydych chi i'ch cangen leol (gweler tudalen 18).

## 4 Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl i ni gytuno ar eich cais byddwn yn anfon y canlynol atoch (ar wahân) cyn pen 10 diwrnod:

- **Cerdyn debyd Visa**
- **Eich rhif hunaniaeth personol (PIN)**
- **Pecyn croeso i'ch cyfrif**


# Mae mwy i NatWest…

## Gallwn hefyd eich helpu gyda

















**Y prawf hunaniaeth mae arnoch ei angen i agor cyfrif gyda NatWest (cwsmeriaid newydd)**
Fel rhan o'n nod o ddiogelu ein cwsmeriaid presennol a phosibl rhag peryglon twyll a lleihau achosion o wyngalchu arian, mae'n ofynnol gwirio hunaniaeth a chyfeiriad **PAWB** sy'n agor cyfrif newydd.

Cofiwch ddod ag **un** o'r canlynol i'ch cangen leol:

**Tystiolaeth o bwy ydych chi**
- Pasbort cyfredol wedi'i lofnodi
- Trwydded yrru lawn y Deyrnas Unedig
- Llyfr budd-dal
- Cerdyn hunaniaeth lluoedd arfog y Deyrnas Unedig
- Cerdyn hunaniaeth cenedlaethol unrhyw un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd

**AC un** o'r canlynol:

**Tystiolaeth o'ch cyfeiriad**
Rhaid i'r dogfennau hyn fod y rhai mwyaf diweddar yr ydych chi wedi'u cael a rhaid iddynt beidio â bod yn fwy na chwe mis oed.

- Bil nwy, trydan neu ffôn (nid yw biliau ffonau symudol yn dderbyniol)
- Bil treth cyngor cyfredol
- Cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu

Ni allwn dderbyn llungopïau.

**Os oes gennych gyfrif cyfredol gyda banc neu gymdeithas adeiladu arall**, mae'n bosibl y bydd angen i ni weld eich cyfriflenni am y mis mwyaf diweddar, ynghyd â thystiolaeth o'ch incwm, er mwyn rhoi i chi gyfrif gyda'r cyfleusterau gorau posibl (cerdyn debyd/gorddrafft). Mae'n bosibl y gofynnir am dri mis o gyfriflenni o dan rai amgylchiadau. Os yw'r rhain ar gael gennych chi, mae'n bosibl y bydd yn eich helpu i agor eich cyfrif newydd gyda NatWest yn gynt. Ac os yw'ch cyfeiriad ar eich cyfriflenni, gallwch eu defnyddio i gadarnhau'ch cyfeiriad parhaol presennol.

**Ar gyfer cwsmeriaid presennol** – os ydych chi'n gwsmer i ni eisoes, siaradwch ag aelod o'r staff.

# Gwybodaeth bwysig

Cyfleusterau credyd: Pobl dros 18 oed yn unig. Mae'n bosibl y caiff galwadau eu recordio. Mae'r manylion yn gywir ar adeg argraffu hwn. Mae'n bosibl y bydd angen gwarant.

Mae Telerau ac Amodau'n berthnasol – darllenwch **Personal and Private Banking – Terms and Conditions a Personal and Private Banking – A Guide to Fees and Interest**.

Mae cyfleuster rhoi arian ar ffôn symudol ar gael trwy bob un o beiriannau arian NatWest a'r rhai â'r logo 'Top-up', gan gynnwys y rhai sy'n cael eu gweithredu gan y Royal Bank of Scotland. Mae'r symiau y gallwch eu rhoi ar eich ffôn yn dibynnu ar derfyn codi arian dyddiol eich cerdyn debyd ac a oes digon o arian ar gael yn eich cyfrif. Mae'n bosibl y bydd terfynau gweithredwyr rhwydweithiau ar roi arian ar ffôn yn berthnasol hefyd.

**Gorddrafftiau**

- Rhaid i chi ad-dalu unrhyw orddrafft os gofynnwn i chi wneud. Mae'n bosibl y bydd cyfraddau gorddrafft a llog yn newid
- Pan fydd gennych orddrafft o fwy na £100 (£250 ar gyfer Advantage Private) o fewn eich terfyn trefnedig, bydd llog ar y swm llawn a fenthycir yn cael ei godi arnoch chi
- Noder y bydd cais am gredyd fel arfer yn cael ei gofnodi gydag Asiantaethau Hanes Credyd ac y bydd o bosibl yn effeithio ar eich gallu i gael credyd yn rhywle arall yn y dyfodol

*Gorddrafft trefnedig yw hwn.

Mae'r llyfryn hwn ar gael hefyd mewn Braille a phrint bras ac ar dâp sain. Gofynnwch mewn cangen NatWest am y llyfryn **Access – Our services for customers with disabilities**.

# Mae'n hawdd gwneud cais

## natwest.com/currentaccounts

**Newid Banciau, Cyfrifon Adapt, Current Plus a Step, Cardiau Debyd Visa**

**0800 200 400**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Gwener, 9am–6pm dydd Sadwrn

**Minicom**

**0800 917 0526**

**Advantage Blue**

**0800 626 503**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Gwener, 9am–6pm dydd Sadwrn.

**Minicom**

**0800 917 0526**

**Advantage Gold**

**0800 626 503**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Gwener, 9am–6pm dydd Sadwrn.

**Minicom**

**0800 917 0526**

**Cyfrifon Myfyrwyr a Graddedigion**

**0800 881 771**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Gwener, 8am–6pm dydd Sadwrn

**Minicom**

**0800 917 0526**

**Advantage Private**

**0800 592 936**

Ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

**Minicom**

**0845 900 5961**

## Ewch i'ch cangen NatWest agosaf

National Westminster Bank Plc, 135 Bishopsgate, Llundain EC2M 3UR. Rhif Cofrestredig: 929027, Lloegr.
NWB4431 1 Hydref 2010